Canllaw Gwirio Manylion Adnabod (ID) ar gyfer Ceisiadau DBS

Mae angen cadarnhau pwy ydych er mwyn prosesu eich cais DBS.

Mae Prifysgol Bangor yn defnyddio darparwr gwasanaeth ymbarél i brosesu ein ceisiadau DBS. Rydym yn cyfeirio at hyn fel y llwybr Digidol.

Dim ond os oes gennych ddogfennaeth gyfredol (o ran dyddiad) y gallwch ddefnyddio'r llwybr digidol: Pasbort y Deyrnas Unedig/Iwerddon, Trwydded Yrru, Cerdyn Adnabod Cenedlaethol neu Drwydded Breswyl Fiometrig. Er mwyn cadarnhau eich manylion personol, mae'n ofynnol i chi gan y DBS ddarparu o leiaf 3 dogfen adnabod.

Os na allwch chi gyflenwi'r rhain, yna efallai y byddwn ni'n eich cyfeirio at wasanaeth dilysu Swyddfa'r Post neu'n gwneud y gwiriad yn Adnoddau Dynol. Mae angen i chi ddarparu dogfennau cyfredol a gwreiddiol (nid llungopïau) yn eich enw presennol, gydag un ddogfen yn dangos eich cyfeiriad presennol ac un i ddangos eich dyddiad geni dan yr opsiynau hyn.

Mae 3 llwybr posibl ar gyfer dewis dogfennaeth dderbyniol. Rhaid i chi ddefnyddio llwybr 1 lle bo modd a dim ond ystyried opsiynau llwybr 2 pan nad ydych chi'n gallu bodloni gofynion llwybr 1.

Llwybr 1
Rhaid i chi fedru dangos:

- un ddogfen o Grŵp 1 isod a
- 2 ddogfen arall o naill ai Grŵp 2a neu 2b isod.

Rhaid i'r cyfuniad o ddogfennau a gyflwynir gadarnhau eich enw a'ch dyddiad geni.

Llwybr 2
Os nad oes gennych unrhyw rai o'r dogfennau yn Grŵp 1, yna rhaid i chi fedru dangos:

- un ddogfen o Grŵp 2a a
- 2 ddogfen bellach o naill ai Grŵp 2a neu 2b isod.

Rhaid i'r cyfuniad o ddogfennau a gyflwynir gadarnhau eich enw a'ch dyddiad geni.

Llwybr 3
Defnyddiwch y llwybr hwn dim ond os nad oes gennych y dogfennau gofynnol ar gyfer Llwybr 1 neu Lwybr 2 uchod. Rhaid i chi fedru dangos:

- tystysgrif geni a roddwyd adeg geni mwy na 12 mis ar ôl eich geni (y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw) ac
- un ddogfen o Grŵp 2a a
- 3 dogfen arall o naill ai Grŵp 2a neu 2b

Rhaid i'r cyfuniad o ddogfennau a gyflwynir gadarnhau eich enw a'ch dyddiad geni.

Os na allwch ddarparu'r dogfennau hyn, efallai y bydd angen cymryd olion eich bysedd.

Grŵp 1: Prif ddogfennau adnabod

Pasbort	Unrhyw basport cyfredol a dilys. Gall pasbort y Deyrnas Unedig fod wedi dod i ben hyd at uchafswm o 6 mis.
e-Fisa	Gellir cael mynediad iddo drwy'r gwasanaeth 'Gweld a Phrofi' (*View and Prove*). Rhaid i'r cod rhannu a ofynnir amdano fod yn god rhannu statws 'mewnfudo'. Os nad oes gennych gyfrif UKVI i gael mynediad at eich eFisa gallwch greu un ar-lein (https://www.gov.uk/get-access-evisa)
Trwydded breswyl fiometrig	Y Deyrnas Unedig. Gellir defnyddio Trwydded Breswyl Fiometrig (BRP) sy'n dangos Caniatâd Amhenodol i Aros, Caniatâd Amhenodol i Fynediad neu Dim Terfyn Amser hyd at 18 mis ar ôl dyddiad dod i ben y BRP. Dylid annog deiliaid BRP i greu cyfrif a chael mynediad at eu e-Fisa
Cerdyn Cofrestru Cais (ARC)	Cyhoeddir gan y Swyddfa Gartref. Rhaid ei wirio yn erbyn Gwasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref
Cerdyn llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro)	Trwydded yrru cerdyn llun gyfredol a dilys a gyhoeddir gan y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel. Nid yw copi papur o'r drwydded yrru cerdyn llun yn ddilys.
Tystysgrif geni - a roddwyd o fewn 12 mis o'r geni	Y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw - yn cynnwys rhai a roddwyd gan awdurdodau'r Deyrnas Unedig dramor, er enghraifft llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau a'r Lluoedd Arfog. Rhaid bod yn dystysgrif wreiddiol. Mae copïau ardystiedig yn ddogfen grŵp 2a.
Tystysgrif fabwysiadu	Y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd y Sianel.

Grŵp 2a: Dogfennau dibynadwy llywodraeth

Cerdyn llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro)	Cyfredol a dilys. Holl weledydd tu allan i'r Deyrnas Unedig (ac eithrio Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel)
Trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro) - fersiwn bapur (os rhoddwyd cyn Mawrth 2000)	Cyfredol a dilys. Y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Er mwyn i drwydded bapur fod yn ddilys rhaid iddi gael ei chyhoeddi cyn Mawrth 2000 a rhaid i'r holl wybodaeth, gan gynnwys enw a chyfeiriad, fod yn gyfredol.
Tystysgrif geni - a gyhoeddwyd fwy na 12 mis ar ôl adeg y geni	Y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel
Tystysgrif priodas / partneriaeth sifil	Y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd y Sianel
Dogfen fewnfudo, fisa neu drwydded waith	Rhoddwyd gan wlad tu allan i'r Deyrnas Unedig. Dilys yn unig ar gyfer swyddi lle mae'r ymgeisydd yn byw a gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Rhaid i'r fisa/drwydded fod yn gysylltiedig â'r wlad tu allan i'r Deyrnas Unedig y mae'r swydd wedi'i lleoli ynddi.
Cerdyn adnabod Lluoedd Arfog EF neu gerdyn cyn-filwr Lluoedd Arfog EF	Y Deyrnas Unedig
Trwydded gwn	Y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw

Grŵp 2b: Dogfennau ariannol a hanes cymdeithasol

Datganiad morgais	Y Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu	Y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd y Sianel. Mae print o gyfriflen banc sydd wedi'i chymeradwyo â stamp ac wedi'i llofnodi gan y banc yn dderbyniol os na allwch gael copi caled o gyrfiflenni banc wedi'u postio atoch.	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu	Gwledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf - rhaid i'r gangen fod yn y wlad lle mae'r ymgeisydd yn byw a gweithio
Llythyr gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn cadarnhau agor cyfrif	Y Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Datganiad cerdyn credyd	Y Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Datganiad ariannol, megis pensiwn neu waddol	Y Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Datganiad P45 neu P60	Y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd y Sianel Gwreiddiol yn unig. Ni all fod yn ddogfen ar-lein nac wedi'i hargraffu o gyfrif ar-lein/PDF	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Datganiad Treth y Cyngor	Y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd y Sianel	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Llythyr nawdd oddi wrth ddarpar ddarparwr cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig	Yn ddilys yn unig yn achos ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig adeg gwneud cais	Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Bil gwasanaeth	Y Deyrnas Unedig - nid bil ffôn symudol. Ni ellir ei argraffu o gyfrif ar-lein.	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Datganiad budd-dal, er enghraifft budd-dal plant, pensiwn gwladol	Y Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf

Dogfen yn rhoi hawl oddi wrth lywodraeth ganolog neu leol, asiantaeth llywodraeth, neu gyngor lleol, er enghraifft, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gwasanaeth Cyflogaeth, Awdurdod Lleol	Y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd y Sianel – llythyr yn cadarnhau hawl i fudd-daliadau. Er enghraifft: Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), prydau ysgol am ddim, credyd cynhwysol, cymorth lloches ac ati	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Llythyrau hunanasesiad neu lythyr hawlio treth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (*HMRC*)	Y Deyrnas Unedig	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewrop (EHIC) neu Gerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang (GHIC)	Y Deyrnas Unedig	Rhaid bod yn ddilys
Cerdyn adnabod cenedlaethol Ardal Economaidd Ewrop		Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Cerdyn Pasbort Gwyddelig	Ni ellir ei ddefnyddio gyda phasbort Gwyddelig	Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Cardiau gyda logo achredu PASS	Y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Mae cardiau PASS digidol yn dderbyniol lle maent wedi'u cyhoeddi gan ddarparwr PASS digidol cymeradwy a bod y cod QR wedi'i ddefnyddio i gadarnhau manylion.	Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Llythyr gan bennaeth ysgol, pennaeth coleg, darparwr prentisiaethau	Y Deyrnas Unedig - i rai 16 i 19 oed mewn addysg lawn amser neu ar brentisiaeth - defnyddir yn unig mewn amgylchiadau eithriadol os na ellir darparu dogfennau eraill	Rhoddwyd yn y mis diwethaf